Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-14-17 PTN2

**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA-P/MD/1691/17

Simon Thomas AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

9 Mai 2017

Annwyl Simon,

Ysgrifennaf i roi gwybod ichi am ein dull gweithredu o ran cyhoeddi Cyllidebau Atodol yn ystod 2017-18.

Rwy'n bwriadu parhau â'r arfer a ddilynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chyhoeddi dwy Gyllideb Atodol yn ystod y flwyddyn ariannol.

Bydd Cyllideb Atodol Gyntaf yn cael ei chyflwyno ar 20 Mehefin i ganiatáu ar gyfer dadl, ar 11 Gorffennaf, cyn toriad yr haf. Mae hyn yn rhoi tair wythnos ar gyfer craffu o dan y Rheolau Sefydlog.

Bydd y gyllideb yn darparu cyfle i adlewyrchu'r newidiadau i gyllideb bloc Cymru yn deillio o Gyllideb 2017 Llywodraeth y DU yn ddiweddar a'r ymarfer Prif Amcangyfrifon, ochr yn ochr ag unrhyw ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn.

Gan ddilyn yr arfer gyfredol unwaith eto, rwyf hefyd yn bwriadu cyhoeddi Ail Gyllideb Atodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,
Mark

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.